# Gobeithion i Gymru

## Cwestiynau Cyffredin

Comisiynydd
Plant Cymru

Children's
Commissioner
for Wales

## Pwy ddylai gwblhau'r arolwg?

Pob plentyn a pherson ifanc sy'n byw yng Nghymru. Mae gennym ni wahanol fersiynau i bob oed. Mae hefyd arolwg i oedolion sy'n gweithio ar ran plant, a fersiwn i rieni/gofalwyr.

## Pam ddylai blant a phobl ifanc gwblhau'r arolwg?

Mae cwblhau'r arolwg yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc lywio gwaith y Comisiynydd Plant dros y tair blynedd nesaf, a'i helpu hi i benderfynu ar ei blaenoriaethau er mwyn sicrhau ein bod ni'n arwain ar newidiadau positif ym mywydau plant Cymru.

## Oes modd cwblhau hwn mewn grŵp neu yn y dosbarth

Rydyn ni wedi ysgrifennu'r arolwg i bobl fedru cwblhau'r peth fel unigolion. Mi fydden ni'n croesawi unrhyw help i alluogi dosbarth cyfan neu grŵp i gwblhau'r arolwg gan gynnwys rhoi mynediad i gyfrifiadur, gliniadur neu iPad fel ein bod ni'n gallu dewis fersiwn o'r arolwg yr hoffen nhw gwblhau.

## Oes modd cael fersiwn ar bapur?

Oes — cysylltwch os nad oes gennych chi fynediad i'r we neu gyfrifiadur a medrwn ni ddanfon fersiwn bapur drwy'r post i chi neu ebostio fersiwn PDF i chi gael argraffu.

## Oes rhaid ateb pob cwestiwn?

Nac oes, medrwch chi sgipio cwestiwn ond mae'n bwysig eich bod chi'n gwasgu'r botwm gwyrdd 'submit' ar ddiwedd yr arolwg fel bod y cwestiynau sydd wedi'u cwblhau yn cael eu harbed yn ddiogel.

## Oes rhaid rhoi enw?

Dydyn ni ddim yn gofyn am eich enw a bydd dim modd i ni ddarganfod pwy neu o ble rydych chi wedi cwblhau'r arolwg. Rydyn ni yn gofyn am eich ardal leol fel ein bod ni'n gallu sicrhau ein bod ni'n clywed wrth blant o bob cwr o Gymru.

## Beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth?

Mi fydd yn wybodaeth fyddwch chi'n rhannu'n helpu Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru, benderfynu ar ei blaenoriaethau dros y tair blynedd nesaf.

## Beth os oes angen i fi helpu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan?

Rydyn ni'n deall bydd rhai plant a phobl ifanc angen cymorth i gymryd rhan; mae'n bwysig iawn i ni fod holl blant Cymru yn cael cyfle i gymryd rhan i ateb y cwestiynnau. Mae helpu'n iawn dim ond eich bod yn sichrau mai barn y plentyn neu berson ifanc sy'n cael ei nodi ar yr arolwg. Mae yna ganllaw i athrawon ac arweinwyr grwpiau ar gael ar ein gwefan.

## Beth os oes angen yr arolwg arna i mewn iaith arall neu fformat arall?

Peidiwch oedi cysylltu gyda ni i weld beth allwn ni neud i helpu.

## Beth yw'r dyddiad cau?

Mae'n rhaid cwblhau'r arolwg erbyn 5 Tachwedd 2022

## Beth os oes angen mwy o wybodaeth arna i?

Rydyn ni'n hapus iawn i ateb unrhyw gwestiwn pellach sydd gennych. Cysylltwch drwy ebostio post@complantcymru.org.uk neu drwy ffonio 0808 801 1000.

Comisiynydd Plant Cymru

Children's Commissioner for Wales